Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Potteries

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Potteries

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | The Potteries |
| Statws y perchennog | CareTech Community Services Ltd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 4 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 4 |
| Dyddiad ymweliad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 13/11/2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 02/12/2024 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae The Potteries yn ysgol arbennig annibynnol, ger Y Drenewydd ym Mhowys. Mae CareTech Community Services Ltd, sef cwmni cyfyngedig preifat, yn berchen ar yr ysgol, ac yn ei rheoli. Mae’r perchennog yn berchen ar gartrefi plant ledled Cymru, Lloegr a’r Alban. Mae’r ysgol wedi’i chydleoli o fewn cartref plant.

Mae The Potteries yn ganolfan asesu; yn nodweddiadol, mae disgyblion yn mynychu rhaglenni 26 wythnos tymor byr yn yr ysgol cyn symud ymlaen i leoliadau tymor hir, er bod rhai lleoliadau’n cael eu hymestyn hyd at 39 wythnos.

Mae 4 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae eu hoedrannau’n amrywio o 11 oed i 16 oed. Mae gan bob disgybl statws plentyn sy’n derbyn gofal ac yn dod o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Y prif angen a nodwyd ar gyfer disgyblion yw anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae 26 o staff cymorth ar draws gofal ac addysg, yn cynnwys rheolwr.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2012 ac ef yw’r unig athro yn yr ysgol.

## Crynodeb

Mae The Potteries yn amgylchedd gofalgar lle mae pob un o'r staff wedi ymrwymo i gefnogi anghenion eu disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu The Potteries yn trosglwyddo i addysg amser llawn wedi i'w lleoliad ddod i ben. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang, sy'n cwmpasu llawer o agweddau ar y meysydd dysgu gofynnol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig ar hyn o bryd i ddisgyblion ennill cymwysterau neu achrediadau ar lefel sy'n briodol i'w gallu neu i ddisgyblion ddysgu am ystod bwysig o bynciau a themâu, er enghraifft gwyddoniaeth, y dyniaethau, addysg rhyw a chydberthynas, a gyrfaoedd.

Mae staff yn adnabod anghenion emosiynol eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt berthnasoedd proffesiynol cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau o ran yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni'n academaidd bob amser yn ddigon uchel. Ymhellach, mae capasiti cyfyngedig i'r ysgol addysgu ystod o bynciau yn addas i lefel TGAU.

Darperir cefnogaeth gan y sefydliad ehangach i'r pennaeth. Fodd bynnag, nid yw prosesau sicrhau ansawdd wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn addasu'n effeithiol i ddiwallu anghenion addysgol ei disgyblion presennol.

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cyfyngedig â mynd i'r afael ag argymhellion o ymweliadau blaenorol.

Nid oes unrhyw sylwadau ar ddysgu a lles disgyblion, nac ar eu hagweddau at ddysgu. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o ddisgyblion yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb fod modd adnabod disgyblion unigol.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif werthusiad

Mae The Potteries yn ysgol wresog a chroesawgar, lle caiff disgyblion eu cefnogi i drosglwyddo'n ôl i addysg amser llawn.

**Cwricwlwm**

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cwmpasu llawer o'r meysydd dysgu gofynnol. Yn benodol, mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol gwerthfawr, yn cynnwys dringo creigiau ac ymweliadau â chyfleusterau hamdden lleol. Fodd bynnag, nid yw gweledigaeth ar y cyd ar gyfer datblygu cwricwlwm sy'n cael ei gydlynu o amgylch cyrchfannau tymor hir pob plentyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu lles a'u creadigrwydd, a datblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu. Defnyddir ystod o dripiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft ymweliadau â Sŵ Caer ac Abaty'r Amwythig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu yn yr awyr agored bob wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau cynlluniedig bob amser yn gwneud y gorau o'r buddion penodol a ddarperir gan ddysgu mewn amgylchedd awyr agored.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am wyddoniaeth a'r dyniaethau yn gyfyngedig iawn. Yn ychwanegol, mae dyraniad amser cwricwlwm ar gyfer addysgu Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) yn anghyson. Ymhellach, nid yw'r cynllunio ar gyfer addysgu ABGI, yn cynnwys Addysg Gyrfaoedd ac Addysg Rhyw a Chydberthynas, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cyfle i fynd i'r afael ag agweddau pwysig ar y pwnc.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion yn addas i godi eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae gallu'r ysgol i fodloni'r dyheadau hynny'n ddigonol trwy'r cwricwlwm, yn gyfyngedig. Er enghraifft, mae capasiti cyfyngedig i addysgu pynciau ar lefel TGAU. Ymhellach, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gyflawni achrediad ar draws ystod o bynciau ar lefelau priodol.

Nid yw ansawdd y cwricwlwm a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

**Addysgu**

Mae addysgu rhifedd wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn. Mae staff yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth buddiol ac yn rheoli ymddygiad yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol ymagwedd gydlynol a chydlynus at ddatblygu medrau disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion pan fyddant yn cael trafferth â thasgau dysgu. Maent yn ymateb i gwestiynau disgyblion yn gysylltiedig â'u gwaith ac yn cynnig adborth cyflym iddynt, sy'n galluogi disgyblion i gael ymdeimlad o gyflawniad. Fodd bynnag, nid yw gwersi wedi'u seilio'n ddigon agos ar lefelau medr y disgyblion unigol. O ganlyniad, nid yw gwersi'n ddigon heriol. Nid yw

disgwyliadau staff o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni'n academaidd bob amser yn ddigon uchel.

Nid oes unrhyw sylwadau ar ddysgu'r disgyblion, eu lles na'u hagweddau at ddysgu. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o ddisgyblion yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb fod modd adnabod disgyblion unigol.

## Pontio

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â phrofiadau dysgu amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb yn yr ysgol yn sylweddol o gymharu â'u hysgol flaenorol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mewn gwersi a thrwy weithgareddau oddi ar y safle, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn arbennig o dda. Mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf â staff, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos y gallu i wrando ar y rhai o'u cwmpas yn briodol ac yn rhyngweithio'n briodol. Mae llawer o ddisgyblion wedi'u harfogi â strategaethau i'w galluogi i reoli eu hemosiynau ac mae ychydig o ddisgyblion yn dangos ymddygiadau amharchus at y rhai o'u cwmpas.

Mae'r ysgol yn llunio adroddiadau manwl ar ddisgyblion yn rheolaidd trwy gydol eu lleoliad lle caiff cynnydd ei adolygu. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y cynnydd cyfannol a wna disgyblion ym meysydd ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltiad â dysgu. Maent yn cefnogi'r broses i ddisgyblion drosglwyddo'n ôl i addysg amser llawn yn briodol. Ar ôl eu lleoliad tymor byr yn The Potteries, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drosglwyddo'n ôl i addysg amser llawn. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

## Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gadw disgyblion yn ddiogel, ac yn darparu amgylchedd diogel, gofalgar ac anogol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r sefydliad ehangach yn darparu hyfforddiant ar-lein mewn meysydd perthnasol fel diogelu a dyletswydd Atal. Mewn ychydig o feysydd, fodd bynnag, nid yw'r cyrsiau hyn yn ddigon perthnasol i'r rhai sy'n gweithio mewn rolau addysg yn yr ysgol neu'r canllawiau statudol ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

## Arweinyddiaeth

Mae'r pennaeth yn ymroddgar ac wedi ymrwymo'n sylweddol i gefnogi disgyblion yn yr ysgol.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n briodol gan yr arweinydd rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am nifer o ysgolion eraill o fewn y cwmni. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r fframwaith llywodraethu a chraffu ar gyfer The Potteries School wedi bod yn llai mynych. O ganlyniad, mae gan y tîm arweinyddiaeth ehangach synnwyr cyfyngedig o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac nid yw wedi rhoi cyfarwyddyd clir i'r pennaeth.

Mae'r pennaeth a'r staff preswyl yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd disgyblion. Oherwydd bod y ddarpariaeth yn fach, mae'r pennaeth yn dibynnu ar dîm o staff cymorth i gyflwyno addysg yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni sicrheir ansawdd yr agwedd hon ar y ddarpariaeth. O ganlyniad, ni all arweinwyr ddangos yn glir fod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion newidiol y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Nid yw arweinwyr wedi gweithredu'r newidiadau angenrheidiol sy'n ofynnol i'r cynnig cwricwlwm i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y garfan bresennol o ddisgyblion. Nid yw arweinwyr yn ystyried effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd yn ddigon da. Ymhellach, mae cynnydd tuag at ymateb i argymhellion blaenorol wedi bod yn gyfyngedig.

Mae'r sefydliad ehangach wedi darparu cyfleoedd i leiafrif o staff preswyl ennill cymwysterau mewn cefnogi addysgu a dysgu. Mae'r pennaeth wedi cael cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygiad proffesiynol i'w gynorthwyo i ddilyn hynt a helynt datblygiadau cenedlaethol mewn addysg ac arfer bresennol mewn addysg. Mae hyn yn ei atal rhag datblygu ei ddealltwriaeth o fodelau cwricwlwm priodol a sut orau i gefnogi dysgu disgyblion. Ymhellach, nid yw dysgu a datblygiad proffesiynol staff wedi'u cysylltu'n ddigon da ag anghenion disgyblion, yr ysgol na blaenoriaethau gwella staff unigol.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, dylai'r perchennog:

- Sicrhau bod polisi ysgrifenedig ar gwricwlwm yr ysgol annibynnol, wedi'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, sy'n darparu ar gyfer y materion a nodwyd yn is-baragraff (2) yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn effeithiol [2(1)(a)]
- Sicrhau nad yw'r polisi ysgrifenedig, y cynlluniau a'r cynlluniau gwaith yn ystyried oedrannau, tueddiadau ac anghenion pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y disgyblion hynny sydd â CDY neu ddatganiad, yn tanseilio gwerthoedd sylfaenol democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn, a pharch a goddefgarwch ar y ddwy ochr y rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau, ac ystyried yr egwyddorion yn Rhan 1 y Confensiwn [2(1)(b)]
- Sicrhau bod addysg amser llawn dan oruchwyliaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol:

iaith, cyfathrebu, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg, y dyniaethau, iechyd, lles a’r celfyddydau mynegiannol [2(2)(a)]
- Darparu cyfle i ddisgyblion sy’n derbyn addysg uwchradd allu manteisio ar arweiniad cywir a chyfoes ar yrfaoedd sydd wedi’i gyflwyno mewn modd diduedd, sy’n eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am ystod eang o opsiynau gyrfa, ac yn helpu i’w hannog i gyflawni eu potensial [2(2)(e)]
- Sicrhau cyfle i bob un o’r disgyblion ddysgu a gwneud cynnydd, yn cynnwys darparu cyfleoedd gwahaniaethol, lle bo’n briodol, a pharatoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a’r profiadau mewn bywyd oedolyn [2(2)(h)]
- Galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd da yn unol â’u gallu fel eu bod yn cynyddu eu dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau yn y pynciau a addysgir [2(3)(a)]
- Sicrhau gwersi wedi’u cynllunio’n dda, dulliau addysgu effeithiol, gweithgareddau addas a rheoli amser dysgu’n ddoeth [2 (3) (c)]
- Dangos bod fframwaith ar waith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr ac yn defnyddio gwybodaeth o’r asesiadau hynny i gynllunio addysgu er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd [2(3)(g)]

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i’r afael â chwynion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024

A2 Sefydlu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant sy'n canolbwyntio'n glir ar gynnydd disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni

A3 Sefydlu dysgu proffesiynol parhaus a thrylwyr i staff gyflwyno a diwallu anghenion dysgu disgyblion yn effeithiol

A4 Gwella darpariaeth y cwricwlwm fel ei bod yn cwmpasu pob maes dysgu ac yn galluogi disgyblion i astudio ystod o gyrsiau ar lefel briodol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Gan nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu o fewn cyfnod amser penodol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni'r safonau, a'r raddfa amser y bydd yn cwblhau pob cam oddi mewn iddi arni. Wedyn, gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gefnogi'r ysgol trwy broses wella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  06/02/2025